

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Philip Owen (Llanefydd) a gweddill y teulu ym marwolaeth ei chwaer, Mair. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Gwyneth Rawson (Llanfair) a gweddill y teulu ym marwolaeth ei chwaer, Glenys. Hyderwn y caiff y ddau deulu adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Dymunwn wellhad buan i Gareth Evans (Henllan) yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Maldwyn a Hafwen Davies (Llansannan) ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

## beibl.net mewn print bras

Os oes unrhyw unigolyn neu eglwys yn dymuno cael copi o beibl.net mewn print bras am y pris gostyngol o £20, mae gennym **UN COPI** yn sbâr. Maint y llyfr yw 165 x 232 x 64 mm (sydd tua'r un maint â Caneuon Ffydd – argraffiad organ). Os ydych eisoes wedi prynu yr un llai o faint ac yn gweld yr ysgrifen yn rhy fân i'w ddarllen, gallwn gyfnewid y copi hwn hefo chi gan fod digon o ddefnydd o'r fersiwn llai yng ngweithgarwch yr Ofalaeth. Y cyntaf i'r felin...!



## I ddod

- **MYFYRDOD Y PASG A CHYFARFOD GWEDDI I'R FRO** yn Groes nos Fawrth, Ebrill 11eg.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel Cefn Meiriadog bore Gwener, Ebrill 14eg am 10.30.
- **LLANW** – Mae'r wyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Ebrill 17eg–20fed. Mwy o fanylion yn y taflenni gwybodaeth sydd ar gael, neu ewch i'r wefan [llanw.org](http://llanw.org).
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 25ain am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Meredydd. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghorwen dydd Mercher, Mai 10fed.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

## Darllenid Wythnos Nesaf

Sechareia 9:9-10 (BCND tud.863 / BCN tud.787)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26<sup>ain</sup> Mawrth 2017

Darllenid y Dydd

Luc 9:51-56

(BCND tud.76 / BCN tud.69)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

‘Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth, ceisiwch ei wyneb bob amser. Cofiwch y rhyfeddodau a wnaeth...’ Dyma gyfarwyddyd y Salmydd i bobl Dduw yn Salm 105 ac mae'n anogaeth addas i ninnau hefyd ar gychwyn Sul arall. Wrth i ni foli'r Arglwydd heddiw gallwn ddod â'n beichiau, ein pechodau a'n doluriau at Dduw yng Nghrist gan sylweddoli fod maddeuant i'w gael trwy farw aberthol Iesu, a chryfder at bob gofyn trwy'r hwn sydd yn ein nerthu ni (Philipiaid 4:13). Felly, boed i ni geisio'r Arglwydd gyda'n gilydd a chofiwn fod rhyfeddodau Duw yn dangos y gallu aruthrol sydd o'n plaid ni sy'n credu. (Effesiaid 1:19)

“Ti 'di cofio troi'r cloc?” Dwi'n siŵr y byddwn ni unai'n clywed neu'n gofyn y cwestiwn fwy nag unwaith dros y Sul. Mae'n rhyfedd meddwl cymaint o ddryswch y gall y newid hwn ei achosi er ein bod yn gorfod ei wneud yn gyson bob gwanwyn a hydref! Wrth gwrs, mae hyd yn oed newid mor ymddangosiadol fychan ag ychwanegu neu dynnu awr yn allweddol bwysig oherwydd y dylanwad y gall ei gael ar drefn ein bywyd. A dweud y gwir, mae nifer o bethau sy'n ymddangos yn fach yn gallu bod yn eithriadol o ddylanwadol yn ein bywydau. Boed yn ymadrodd ffwrdd â hi sy'n peri tramgwydd neu'n fodfedd neu ddwy allan ohoni wrth fesur, gall y canlyniadau fod yn enfawr. Ac wrth i ni droi at ein darllenid ar y cyd heddiw byddai'n hawdd i ni frysio dros yr adnod gyntaf (51) braidd yn ddifeddwl. Iesu ar ei ffordd i Jerwsalem. Beth sy'n arbennig am hynny? Ond wedi i ni ystyried ychydig yn ddyfnach beth yn union mae'r rhan hon o Efengyl Luc yn ei ddweud, gwelwn fod cryn arwyddocâd i'r adnod hon. Mae Iesu yn troi ei wyneb i fynd i Jerwsalem gan fod ei weinidogaeth ddaearol yn dirwyn i ben. Gwelwn yma barodrydd a dyfalbarhad Iesu i achub ei bobl. Gwyddai mai dyma oedd pwrpas pennaf ei ddyfodiad i'r byd (Luc 19:10), ac oherwydd ei gariad pur, dangosa'r Beibl iddo ildio ei fywyd o'i wirfodd er mwyn i eraill gael byw. Wrth i ni agosáu at y Pasg, mae'n gysur eithriadol cael ein hatgoffa fod penderfyniad diwyro Iesu i fynd i'r groes wedi golygu bod cymod bendigedig wedi ei wneud. Pontiodd Iesu'r bwllch anferth rhwng Duw sanctaidd a phobl bechadurus. Bellach mae heddwch a bywyd tragwyddol i'w gael gyda Duw i bawb sydd yng Nghrist – hynny yw pawb sydd wedi ymddiried eu bywydau iddo a chredu ynddo.

Wrth droi'r clociau, y cwestiwn fel arfer yw – oes angen i mi newid yr amser neu fydd y cloc yn gwneud y gwaith drosof? Testun diolch tragwyddol Cristnogion yw bod y gwaith i'n hachub wedi cael ei gyflawni yn barod – unwaith am byth, wrth i'r cyfiawn farw dros yr anghyfiawn i'n dwyn ni at Dduw. (1 Pedr 3:18)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 🐦

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.
- Mawrth – 28<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Mercher – 29<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 30<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Cymdeithas Chwirydd Bro Aled** – Noson o dan arweiniad Sarah Dafydd yng Nghapel Llanefydd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 pryd y bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg. Ddr Geraint Tudur a'r Dr Hefin Jones (Caerdydd) yn rhannu yr hyn a ddysgwyd yn yr Arolwg a wnaed o'r Cyfundebau. Amcan eu hymweliad yw trafod ein sefyllfa, cadarnhau a chryfhau ein gwaith, a darganfod y ffordd orau i'r Cyfundeb fedru symud ymlaen.
- Gwener – 31<sup>ain</sup> ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Heulfryn, Llansannan o 7.00 – 8.30.
- Sadwrn – 1<sup>af</sup> ➤ **DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yng Nghaffi Gorwelion, Y Bala o 10.00-12.00.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00, ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00.
- Mawrth – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Groes am 7.30 pryd y bydd Dafydd a Cadi yn sgwrsio am eu hymweliad â Phatagonia ac yn rhoi ambell gân. Croeso i'r dynion hefyd.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd gwasanaeth ar y thema Apêl Corwynt Cariad yn Henllan am 10.00 pryd y bydd Cheryl Williams yn rhoi sgwrs am ei hymweliad â'r Philippines. Gwneir casgliad arbennig tuag at yr Apêl yn ystod y gwasanaeth. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mawrth – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Groes am 7.30 pryd y bydd Dafydd a Cadi yn sgwrsio am eu hymweliad â Phatagonia ac yn rhoi ambell gân. Croeso i'r dynion hefyd.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.
- Mawrth – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Groes am 7.30 pryd y bydd Dafydd a Cadi yn sgwrsio am eu hymweliad â Phatagonia ac yn rhoi ambell gân. Croeso i'r dynion hefyd.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd Ysgol Sul yno am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 2<sup>il</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol ac yn gweinyddu'r cymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.